ENGHRAIFFT O GYFANSODDIAD CLWB

## i. Enw'r clwb a'i gysylltiad

Enw'r Clwb fydd *(enw'r Clwb)*, a bydd yn gysylltiedig â Chwaraeon Anabledd Cymru/Awdurdod Lleol / Corff Llywodraethu Cenedlaethol y gamp*(dileer fel y bo'n berthnasol)*.

## ii. Nodau ac Amcanion

Nodau ac amcanion y Clwb fydd:

- Chwarae a hyrwyddo'r *gamp*
- Cynnig *cyfleoedd chwaraeon, hyfforddi a chystadlu i bob aelod (iau/hŷn/pawb)*
- Darparu dyletswydd gofal ac amddiffyniad i holl aelodau'r Clwb
- Sicrhau bod holl aelodau'r Clwb yn cael eu trin yn deg.

## iii. Cyllid a Chyfrifon

Bydd holl arian y Clwb yn cael ei fancio mewn cyfrif o dan enw'r Clwb.

- Y Trysorydd fydd yn cadw'r cyfrifon, ac yn eu harchwilio'n flynyddol.
- Bydd blwyddyn ariannol y Clwb yn dod i ben *(nodwch ddyddiad)*
- Bydd unrhyw sieciau sy'n cael eu tynnu o gronfeydd y clwb yn cael eu llofnodi gan o leiaf dau lofnodwr awdurdodedig.
- Os fydd *(enw'r Clwb)* ddim yn hyfyw bellach, a bod angen i'r cyfrifon gael eu dirwyn i ben yna bydd unrhyw gronfeydd gweddilliol, ar ôl i'r holl gredydwyr gael eu bodloni, yn cael eu rhoi i Glwb neu sefydliad gyda nodau ac amcanion tebyg.

## iv. Rhedeg y Clwb

Bydd y Clwb yn cael ei redeg gan bwyllgor sy'n cynnwys:

- Cadeirydd
- Trysorydd
- Ysgrifennydd
- *(unrhyw swydd neu gynorthwy-ydd perthnasol arall)*

## v. Aelodaeth

Bydd aelodaeth y clwb yn cynnwys:

- (pobl anabl a phobl nad ydyn nhw'n anabl) aelodau sy'n oedolion
- (pobl anabl a phobl nad ydyn nhw'n anabl) aelodau iau
- *(Clwb Iau / Clwb Anabledd)* yn is-grŵp o *(enw'r Clwb)* ac felly wedi mabwysiadu a chytuno i gydymffurfio â holl bolisïau a gweithdrefnau'r Clwb.
- Rhaid i bob aelod ddilyn cyfansoddiad a chodau ymddygiad y Clwb.
- Caiff y ffioedd eu gosod a'u hadolygu'n flynyddol gan y pwyllgor a'u cymeradwyo yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.



## vi. Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn cael ei gynnal ym mis *(nodwch fis)*.
Bydd aelodau yn derbyn o leiaf 21 diwrnod o rybudd am y cyfarfod.
Bydd yr Agenda yn cynnwys:

- Adroddiad gan y pwyllgor
- Adroddiad y Trysorydd a chyfrifon y flwyddyn
- Ymddiswyddiad y pwyllgor presennol
- Ethol y pwyllgor ar gyfer y flwyddyn i ddod
- Ethol swyddi perthnasol eraill i rôl a phwrpas y Clwb
- Mae gan bob aelod yr hawl i bleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Mae gan yr aelodau i gyd yr hawl yr hawl i alw am Gyfarfod Cyffredinol Arbennig.
Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal os bydd o leiaf 25% o'r aelodau yn galw amdano.
Bydd rhybudd am Gyfarfod Cyffredinol Arbennig yr un peth â Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

## vii. Newidiadau i'r Cyfansoddiad

Dim ond trwy bleidlais fwyafrifol y gall y Cyfansoddiad yma gael ei newid mewn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.